| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **11 RHAGFYR 2017** |
| **TEITL:** | **GWEITHREDU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 – TACSIS HYGYRCH AR GYFER CADEIRIAU OLWYN** |
| **PWRPAS:** | **CYNGHORI AELODAU A GOFYN AM GYMERADWYAETH I WEITHREDU ADRANNAU PERTHNASOL Y DDEDDF** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Y Ddeddf) yn cynnwys adrannau sy'n berthnasol i gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2017. Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu bennu a ydynt yn dymuno cynnal rhestr o gerbydau sydd wedi'u dynodi yn rhai sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Pan fydd awdurdod trwyddedu yn gweithredu rhestr o'r fath, rhoddir dyletswydd ar yrwyr y cerbydau hyn, fel yr amlinellir isod yn yr adroddiad.

## 2. STRATEGAETHAU A PHOLISIAU PERTHNASOL

2.1 Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a'r amodau cysylltiedig yn fater sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd y polisi tacsis integredig newydd yn cynnwys gweithredu darpariaethau perthnasol y Ddeddf, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Pwyllgor hwn.

2.2 Byddai gweithredu gofynion y Ddeddf mewn perthynas â hygyrchedd i gadeiriau olwyn hefyd yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae diogelwch y cyhoedd yn hollbwysig, ac mae Cyngor Gwynedd yn ceisio rhoi sylw i'r holl agweddau o drwyddedu gyrwyr i sicrhau eu bod yn bersonau addas a phriodol, a'u hyrwyddo fel unigolion proffesiynol.

## 3. DARPARIAETHAU'R DDEDDF

3.1 Daeth Adrannau 165, 166 a 167 y Ddeddf Cydraddoldeb i rym ar 6 Ebrill 2017, a gall yr adrannau hyn effeithio'n uniongyrchol ar yr awdurdod trwyddedu ac ar yrwyr cerbydau sydd wedi'u dynodi yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Bwriedir i'r adrannau hyn sicrhau bod gwell gwybodaeth ar gael i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn am ba gerbydau hacni a hurio preifat yn eu hardal sy'n addas ar eu cyfer, ac iddynt fod yn hyderus y byddant yn derbyn y cymorth angenrheidiol i deithio'n ddiogel.

3.2 Mae Adran 167 y Ddeddf yn rhoi caniatâd i Awdurdodau gynnal rhestr ddynodedig o gerbydau hacni a hurio preifat sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, ond nid yw'n ei wneud yn ofynnol. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal rhestr o'r fath, mae'r Llywodraeth yn awgrymu'n gryf y dylai Awdurdodau Lleol wneud hynny. Lle nad oes rhestr ddynodedig ar gael, nid yw gofynion adran 165 yn berthnasol, a gall gyrwyr cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn wrthod cludo defnyddwyr cadeiriau olwyn, wrthod roi cymorth iddynt a chodi tâl ychwanegol arnynt.

3.3 Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) wedi pennu canllawiau statudol ynghylch gweithredu'r adrannau hyn o'r Ddeddf. (gweler atodiad 1) Mae'r canllawiau hefyd yn argymell pa brosesau y dylai'r Awdurdodau Lleol eu hystyried er mwyn sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn eu hardal.

3.4 Awgrym yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer y drefn yw:

- Adolygu’r canllawiau a'u cymharu â pholisïau cyfredol lleol
- Paratoi rhestr ddrafft o gerbydau sydd wedi'u dynodi yn hygyrch i gadeiriau olwyn.
- Llunio polisi ar gyfer eithrio gyrwyr o'r dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf am resymau meddygol a chorfforol
- Hysbysu perchnogion cerbydau y bydd cerbydau yn cael eu rhoi ar y rhestr, ac y bydd dyletswyddau'n cael eu gosod ar y gyrwyr.
- Gyrwyr i wneud cais am eithriadau yn ôl yr angen
- Yr Awdurdod Trwyddedu i gyhoeddi eithriadau fel sy'n briodol
- Cyhoeddi rhestr o gerbydau sydd wedi'u dynodi yn hygyrch i gadeiriau olwyn, a daw'r dyletswyddau ar yrwyr i rym.

3.5 Mae Adran 165 yn pennu'r dyletswyddau a osodir ar yrwyr cerbydau dynodedig hacni a hurio preifat sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Y dyletswyddau yw:

- Cludo'r teithiwr wrth barhau i eistedd yn y gadair olwyn
- Peidio â chodi tâl ychwanegol am wneud hynny
- Os bydd y teithiwr yn dewis eistedd ar sedd teithiwr yn y car, cludo'r gadair olwyn.
- Cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod teithwyr yn cael eu cludo'n ddiogel a'u bod yn rhesymol gysurus; a
- Rhoi unrhyw gymorth symudedd i'r teithiwr, fel sy'n rhesymol angenrheidiol.

3.6. Mae cymorth symudedd wedi'i ddiffinio yn y Ddeddf fel cymorth i:

- Alluogi'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd;
- Os bydd y teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, galluogi'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd gan aros yn y gadair olwyn;
- Llwytho bagiau'r teithiwr i mewn ac allan o'r cerbyd;
- Os nad yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, llwytho'r gadair olwyn i mewn ac allan o'r cerbyd.

3.7 Pan fo Awdurdod Lleol yn penderfynu eu bod am ddarparu rhestr ddynodedig o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, rhaid iddynt weithredu polisi a gweithdrefnau angenrheidiol i eithrio gyrwyr gyda chyflyrau meddygol neu gorfforol fyddai'n eu rhwystro rhag cydymffurfio gyda'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gyrru cerbyd dynodedig. Mae Adran 166 y Ddeddf yn pennu ffurf yr hysbysiad eithrio y mae'n rhaid i yrwyr sydd wedi'u heithrio ei arddangos wrth yrru cerbyd dynodedig.

3.8 Ar hyn o bryd mae gan yr awdurdod oddeutu 53 o gerbydau trwyddedig fyddai'n cael eu dynodi fel rhai sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Gall cyhoeddi rhestr fod yn ffordd o annog cynnydd mewn ceisiadau am drwyddedu cerbydau o'r fath, ac yn anogaeth i gwmnïau sylweddoli bod gwerth economaidd posib i'w gael o gynnwys cerbydau o'r fath fel rhan o fflyd cwmni tacsis.

3.9 Gofynnir i aelodau benderfynu a ddylai'r Cyngor hwn weithredu adran 167 Deddf Cydraddoldeb 2010 i lunio a chyhoeddi rhestrau o gerbydau trwyddedig dynodedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ai peidio. Os bydd Aelodau yn penderfynu y dylai'r Cyngor hwn fabwysiadu'r gofynion hyn, bydd swyddogion yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn gyda chynigion ar gyfer polisi eithrio a dogfennau trefniadol i'w hystyried.

3.10 Byddai mabwysiadu rhannau perthnasol y Ddeddf Cydraddoldeb a chyhoeddi rhestr o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn sy'n dymuno defnyddio cerbydau Trwyddedig, ac yn cynnig eglurder i ddefnyddwyr ac i yrwyr trwyddedig fel ei gilydd. Mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn ymdrin â'r holl unigolion a sefydliadau sy'n gwneud cais am drwyddedau, neu sy'n ddeiliaid trwyddedau, gyda pharch cyfartal wrth gyfathrebu gyda'r unigolion a'r sefydliadau hynny yn ystod unrhyw broses drwyddedu.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Bod yr Aelodau yn ystyried ac yn cymeradwyo:

a) gweithredu gofynion adrannau 165, 166 a 167 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

b) bod swyddogion yn paratoi polisi, i'w ystyried gan y pwyllgor, ar y meini prawf ar gyfer eithriadau a'r gweithdrefnau ar gyfer gyrwyr na allent gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir yn y Ddeddf am resymau meddygol neu gorfforol.

c) bod y darpariaethau polisi ar gyfer rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad o bolisïau tacsis sydd ar y gweill ar hyn o bryd; a'u cynnwys yn y polisi tacsis unedig fydd yn barod i ymgynghori arno yn fuan.